# Cynllun Gwers

BIG STREET SURVEY
Making our community a better place

## Parhad:

- Gwers Safonol: 2 x 1.5 gwersi awr
- Gwers fer: 1 x 2 gwersi awr
  - Wedi ichi wneud y gwaith maes, cwblhewch yr adran Doeth ar y Stryd yn y llyfryn ac yna ewch yn syth i Weithgaredd 8: Ein Maniffesto

## Gweithgaredd 1: **Llinellau Gwerth**

### CAMAU GWEITHREDU'R ATHRO

Rhannwch yr ystafell ddosbarth yn ôl y ddau gategori **Cytuno'n Gryf ac Anghytuno'n Gryf.** Cynigiwch gyfres o ddatganiadau a gofynnwch i'r disgyblion i sefyll yn y rhan o'r dosbarth sy'n cyd-fynd â'r categori y mae eu barn yn perthyn iddo. **Defnyddiwch y cwestiynau hyn ond ychwanegwch ambell gwestiwn eich hun, er enghraifft am iechyd ac am yr amgylchedd:**

1. **A ydw i'n hoffi fy nhaith i'r ysgol?**
2. **Pa mor hir yw fy nhaith i'r ysgol?**
3. **A ydw i'n teimlo'n ddiogel ar fy nhaith i'r ysgol?**

Gofynnwch i rai disgyblion gyfiawnhau pam eu bod yn sefyll mewn mannau penodol yn yr ystafell ddosbarth. **Gofynnwch beth fyddai'n eu hannog i symud i ben arall yr ystafell ddosbarth.**

### AMCANION A DEILLIANNAU DISGYBLION

Dylai disgyblion ystyried eu barn ynghylch y datganiadau. Dylent ystyried eu hymatebion a **dylent allu cyfiawnhau eu penderfyniadau.** Yn dilyn hyn, dylent ystyried beth gymer hi i leihau unrhyw deimladau negyddol sydd ganddynt fel ymatebion i'w datganiadau.

**Adnoddau**

- PowerPoint: Cam wrth gam ar gyfer y wers gyfan

**Amser gweithgaredd**

10 munud

## Gweithgaredd 2: **Fy Siwrne**

### ATHRO

Yn **llyfryn y disgybl,** gofynnwch i'r disgyblion **gwblhau'r stribed ffilm.** Tynnwch lun rhannau nodedig o'u taith i'r ysgol, **gan gychwyn gyda'u cartrefi** yn y sgwâr cyntaf, gan orffen gyda'r **ysgol yn y sgwâr diwethaf.** Gofynnwch i'r disgyblion gymharu eu lluniau wrth eu byrddau.

- A oes tebygrwydd i weld rhwng rhai o'u siwrneiau?
- A oes elfennau tebyg rhwng pob modd teithio?
- Pa ran o'r siwrne y maent yn ei hoffi neu yn ei gasáu?

- Gofynnwch iddynt roi wyneb sy'n gwenu (hapus/trist/niwtral) yng nghornel pob sgwâr i ddynodi sut maen nhw'n teimlo.
- Gofynnwch iddynt gyfri'r wynebau 'Da' neu 'Ddrwg'. Beth yw'r sgôr? Beth yw sgôr y dosbarth? (allan o chwech)
- Fel dosbarth trafodwch sgôr y disgyblion. Gofynnwch a oedd yr holl siwrne'n ddarlun o wynebau oedd yn gwenu? Os na, a oes modd iddyn nhw wneud eu holl siwrne yn wynebau hapus?
- Gofynnwch i'r disgyblion gwblhau datganiadau ar flaen y daflen a'u trafod.

**Adnoddau**

- Llyfryn disgyblion
- Pensiliau

**Amser gweithgaredd**

15 munud



sustrans JOIN THE MOVEMENT

© Sustrans 2012 Registered Charity No. 326550 (England and Wales) SC039263 (Scotland) VAT Registration No. 416740656

## Gweithgaredd 2: **Fy Siwrne**

**AMCANION A DEILLIANNAU DISGYBLION**

Dylai disgyblion:

- Wneud sgetsh o’r chwe uchafbwynt ar eu taith i'r ysgol.
- Trafod elfennau tebyg a gwahaniaethau gyda’u cymdogion, gan gynnwys moddau teithio.
- Penderfynu pa mor fodlon ydynt gyda phob rhan o'r daith ac ychwanegu wyneb sy'n gwenu i ddynodi hyn.
- Darganfod y sgôr / y gymhareb rhwng y 'Da' a'r 'Drwg' ar eu taith, a gwneud yr un fath gyda'r holl ddosbarth.
- Cwblhau’r datganiadau ar y dudalen flaen.

## Gweithgaredd 3: **Sesiwn gwaith maes**

**ATHRO**

**Eglurwch i’r dosbarth** eu bod am fynd allan i gasglu gwybodaeth am yr ardal o gwmpas eu hysgol i geisio mesur rhai o'r pethau y buont yn eu trafod.

Ewch drwy'r enghraifft **PowerPoint** yn llyfryn y disgyblion – eglurwch sut maen nhw i gwblhau pob adran.

Gludiwch ddarn mawr o bapur ar y wal neu defnyddiwch y bwrdd gwyn, yna tynnwch **fraslun syml o fap** o'r ardal o gwmpas yr ysgol. **Gwahoddwch y disgyblion** i'ch helpu gyda'r map a lluniwch allwedd.

- **Gofynnwch i'r disgyblion gopïo'r map i'w llyfrynnau.**
- Nodwch bedwar pwynt ar y map (un ar bob chwarter o bapur A4) i gynrychioli'r ardaloedd y bydd y disgyblion yn ymweld â nhw. Gofynnwch iddynt eu nodi ar eu mapiau nhw hefyd.
- **Rhowch enghraifft** o'r gwaith yr ydych yn ei gyflawni i'r dosbarth i gael y disgyblion i feddwl am sut maen nhw am gyflawni'r gwaith pan fyddant allan ar y stryd.

1. **Yr hyn a welaf (ffotograffau)** tynnwch dri llun ym mhob lleoliad
   - Trosolwg o'r lleoliad
   - Un nodwedd dda
   - Un nodwedd yr hoffech ei newid
2. **Sut mae hyn yn peri i mi deimlo?** 3–5 gair disgrifiadol/emosiynol
3. **Sgorau Arsylwi:** Defnyddiwch y raddfa symudol i raddio eich barn am yr ardal
4. **Cyfrif y teithiau:** Rhannwch y disgyblion i dri grŵp a rhowch fodd teithio i bob grŵp (modurwr, beiciwr, cerddwr), gan ofyn iddynt gyfri’r nifer o’r modd hwnnw sy'n mynd heibio man penodol mewn cyfnod o ddwy funud, a rhannwch y canlyniadau.

- **Dilynwch y drefn arferol ar gyfer gadael yr ysgol.**
- Ewch â disgyblion i'r **pedwar man** yr ydych wedi eu marcio ar y map a **chwblhewch y gwaith maes ym mhob un.**

**Adnoddau**

- Llyfryn disgyblion
- Pensiliau
- Clipfyrddau
- Cotiau ac ati
- Camera/tabled ddigidol
- Meddyginiaeth bersonol

(e.e. anadlyddion asthma)

**Amser gweithgaredd**

50 munud (yn cynnwys nôl cotiau ac ati)



© Sustrans 2012 Registered Charity No. 326550 (England and Wales) SC039263 (Scotland) VAT Registration No. 416740656

sustrans JOIN THE MOVEMENT

## Gweithgaredd 3: **Sesiwn gwaith maes**

**AMCANION A DEILLIANNAU DISGYBLION**

Dylai disgyblion: gwblhau pob adran yn nhudalennau canol eu llyfrynnau, ar gyfer pob lleoliad a nodwyd yn eu dalgylch. Y rhain yw:

Mae rhain yn:

- **Yr hyn a welaf** – tynnu tri ffotograff (trosolwg / rhywbeth dwi'n ei hoffi / rhywbeth y byddwn yn ei newid). Yna, nodi'r rhesymau pam wnaethon nhw dynnu pob llun.
- **Beth yw fy nheimlad i am y fan hon** – y disgyblion i ysgrifennu geiriau disgrifiadol am eu barn am le (er enghraifft – croesawgar, bygythiol, prysur neu swnllyd, ac yn y blaen.)
- **Cyfrif Teithio** – Y disgyblion yn rhannu'n grwpiau ac yn cyfri sawl cerddwr, beiciwr, modurwr sy'n pasio mewn un funud. Y disgyblion i nodi'r nifer wrth bob eicon yn eu llyfrynnau (hynny yw, cerddwr llwyd, beiciwr neu gar)
- **Cyflymder Cerbydau** – ar y raddfa crwban ac ysgyfarnog, disgyblion i nodi cyflymder y traffig, gallant fesur pellter penodol a nifer y cerbydau.
- **Arsylwi** – maent i farcio graddfeydd eu teimladau a'u harsylwadau ynghylch yr ardal, e.e., Distaw i Uchel.

## Gweithgaredd 4: **Sesiwn Lawn**

**ATHRO**

Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am un nodwedd newydd o gwmpas yr ysgol neu'r cartref y maent wedi ei ddarganfod heddiw a gallant drafod hyn mewn parau neu grwpiau bychain a'u rhannu gyda gweddill y dosbarth.

**AMCANION A DEILLIANNAU DISGYBLION**

Mae'n bosibl fod disgyblion wedi magu agwedd wahanol tuag at eu cymdogaeth, am eu taith i'r ysgol neu o gwmpas yr ysgol.

Gallant drafod unrhyw elfen newydd y maent wedi arsylwi arni neu am safbwynt gwahanol sydd ganddynt am rywbeth y maent yn ei weld bob dydd.

Dylent allu ysgrifennu am rai meddyliau ar bapur neu eu trafod a'u cymharu gyda disgyblion eraill.

**Casglwch lyfrynnau'r disgyblion ar ddiwedd sesiwn un.**
**... os ydych yn dilyn y wers fer, neidiwch i Weithgaredd 8: Ein Manifffesto**

**Adnoddau**

- Llyfryn disgyblion
- Pensiliau

**Amser gweithgaredd**

10 munud



© Sustrans 2012 Registered Charity No. 326550 (England and Wales) SC039263 (Scotland) VAT Registration No. 416740656

sustrans JOIN THE MOVEMENT

## Paratoi ar gyfer sesiwn dau

1. Yn sesiwn dau, bydd **pob grŵp wrth eu byrddau'n astudio un o'r safleoedd yr ymwelwyd ag ef.** Byddant angen un set o **ffotograffau** o'r safle hwnnw, yn ogystal â **chwmwl geiriau** ar gyfer y safle. (Mae hyn yn syml os oes gennych bedwar grŵp, os oes gennych fwy bydd angen i chi ddyblygu setiau)
2. **Argraffwch gyfres o ffotograffau** o bob un safle yr ymwelwyd ag ef (3 ffoto x4 safle)
3. Ysgrifennwch y geiriau o'r rhan **"Sut mae'r lle hwn yn peri i mi deimlo"** yn llyfryn y disgyblion i wefan **Wordle/Cwmwl Geiriau** ar gyfer pob un safle yr ymwelwyd ag ef. (dylai fod pedwar Cwmwl Gair gennych erbyn y diwedd)
4. Sicrhewch fod gennych ddigon o gardiau **Trymps Strydoedd** wedi eu hargraffu a'u torri allan.
5. Dewiswch y tair **Senario Stryd** fwyaf perthnasol ar gyfer eich ardal yna argraffwch ddigon fel bod gennych un ar gyfer pob cymeriad, gan gynnwys yr adroddwr (tua 7 ar gyfer pob senario). Yna, **amlygwch** un cymeriad fesul cerdyn, fel y bydd pob disgybl sy'n derbyn cerdyn yn gallu gweld pa ddarn y maent yn ei ddarllen
6. Efallai yr hoffech ddarparu propiau (hetiau, teis a siacedi) ar gyfer y chwarae rôl.

## Gweithgaredd 5: **Nodwch y gwahaniaeth**

### CAMAU GWEITHREDU'R ATHRO

Gan ddefnyddio'r PowerPoint dangoswch lun stryd cyn cymryd rhan mewn Prosiect Stryd DIY am **30 eiliad** a gofynnwch i'r disgyblion nodi'r holl bethau maent yn sylwi arnynt.

Yna, am 30 eiliad, dangoswch stryd wedi i'r gwaith gael ei gyflawni ar y prosiect a gofynnwch i'r disgyblion nodi'r holl bethau maent yn sylwi arnynt.

Yna, dangoswch y ddau lun gyda'i gilydd ar gyfer y drafodaeth

- Beth yw'r gwahaniaethau?
- Pa lun maent yn ei hoffi orau?
- A oeddent o'r farn fod y newidiadau yn gostus?
- A oeddent o'r farn y byddai'r newidiadau yn hawdd i'w gwneud?

### AMCANION A DEILLIANNAU DISGYBLION

Dylai disgyblion allu dod o hyd i wahaniaethau rhwng y lluniau a deall sut mae'r stryd wedi newid a dylent allu ateb eich cwestiynau, hyd yn oed os nad yw'r stryd wedi gwella yn eu barn nhw.

**Adnoddau**

- PowerPoint

**Amser gweithgaredd**

10 munud



© Sustrans 2012 Registered Charity No. 326550 (England and Wales) SC039263 (Scotland) VAT Registration No. 416740656

# Gweithgaredd 6: **Senario Stryd**

## ATHRO

Defnyddiwch y PowerPoint i fynd drwy'r gweithgaredd gyda'r disgyblion.

1. Dangoswch y sleid **Senarios Stryd** ar y rhaglen PowerPoint
2. **Dilynwch yr enghraifft** ac eglurwch y bydd pob disgybl yn chwarae rhan (os ydyn nhw'n dymuno gwneud). Gofynnwch pwy all ddynwared rhiant neu gynghorydd, athro neu ddisgybl a gwnewch y peth yn hwyl.
3. **Dynodwch y rolau** a rhowch y cardiau Senario Stryd perthnasol i bob disgybl.
4. Gosodwch set/taflen o gardiau Trymps Strydoedd ar ben pob desg, yn ddelfrydol wedi'u torri'n gardiau unigol. Eglurwch fod pob cerdyn **Trymps Strydoedd** yn defnyddio **system sgorio** i ddangos y nodweddion **cadarnhaol** a'r **negyddol**, yn ogystal â'r gost! Yn union fel cardiau Top Trumps. **Eglurwch** y byddant yn rhannu'r **cardiau Trymps Strydoedd** yn **dri phentwr**, yn dibynnu ar eu defnyddioldeb (ie, efallai, na) yna dewiswch **3-4 o'r cardiau maent yn eu hoffi fwyaf**, fel datrysiad i'w Senario Stryd.
5. **Perfformiwch y chwarae rôl cyntaf**, (gellir gwneud hyn o flaen yr ystafell ddosbarth neu o'u cadeiriau).
6. **Dynodwch gyllideb** ar gyfer y chwarae rôl, rhwng (£1 a £10) – a dosbarthwch y Trymps a ddaeth i'r brig.
7. Trafodwch holl **atebion y senario gyda'r dosbarth cyfan a'r** rhesymau pam wnaeth y disgyblion eu dewis.
8. **Ailadroddwch** ar gyfer y ddau senario sydd yn weddill (mae gofyn i'r disgyblion i chwarae rôl yn esgor ar fwy o lwyddiant i bob golwg)

## AMCANION A DEILLIANNAU DISGYBLION

- Gwrando ar Chwarae Rôl y Senario Stryd (a chymryd rhan os dymunant)
- **Rhoi'r cardiau Trymps Strydoedd** yn dri phentwr cyfartal: Un ar gyfer **Na**, un ar gyfer **Efallai**, ac un ar gyfer **Ie**. Sicrhau eu bod yn cadw o fewn y gyllideb.
- **Ceisio cael 3-4 ateb pendant ar gyfer pob senario,** wedi iddynt eu trafod fel grŵp. Sicrhau y **lleisir pob barn**, hyd yn oed os nad ydynt yn cytuno.
- Trafod y **Trymps Strydoedd** a ddewiswyd ac esbonio pam

**Adnoddau**

- PowerPoint
- Trymps strydoedd
- Cardiau senario stryd

**Amser gweithgaredd**

40 munud



© Sustrans 2012 Registered Charity No. 326550 (England and Wales) SC039263 (Scotland) VAT Registration No. 416740656

sustrans JOIN THE MOVEMENT

# Gweithgaredd 7: **Ein Senario Stryd**

## ATHRO

- Gofynnwch i'r disgyblion estyn eu llyfrau a throi at yr **adran Doeth ar y Stryd** ar y dudalen gefn.
- Dynodwch **un** o'r **pedwar maes** y maent wedi **ymweld** â nhw i bob grŵp.
- Darparwch y **ffotograffau a'r Cymylau Geiriau** y maent wedi eu cymryd ar gyfer yr **ardal honno** (naill ai ar ddyfais dabled neu wedi ei hargraffu).
- Gofynnwch iddynt edrych ar y **ffotograffa a'r Cymylau Geiriau** yn ogystal â'r **holl wybodaeth y maent wedi'i chasglu** ar gyfer eu hardal, ac i **ganfod tair problem yn yr ardal honno**.
- Gofynnwch iddynt **gofnodi'r tair problem** (peidiwch â chwblhau'r adran atebion ar y funud!) a rhowch tua **5 munud** iddynt gwblhau'r dasg.
- Pan fo'r disgyblion **wedi cofnodi'r problemau**; gofynnwch iddynt rannu gyda gweddill y dosbarth a'u cofnodi ar y bwrdd gwyn. Dyma eich **Senario Ysgol**. Rŵan, ceisiwch ei ddatrys!
- Gan ddefnyddio'r cardiau **Trymps Strydoedd** a'u **menter eu hunain**, gofynnwch i'r disgyblion gynnig eu **hatebion eu hunain i'r problemau** a gafodd eu rhestru yn gynharach.

### Adnoddau

- Rhannau map maint A4 o Weithgaredd 3
- Llyfrynnau disgyblion
- Trymps strydoedd
- Ffotograffau ar y dabled neu wedi'u hargraffu

### Amser gweithgaredd

20 munud

## AMCANION A DEILLIANNAU DISGYBLION

- Gan ddefnyddio'r ffotograffau, **y Cymylau Geiriau a'r llyfrynnau disgyblion**, trafodwch broblemau **eich ardal chi** gyda'ch grŵp.
- Nodwch y **tair prif broblem** y mae eich grŵp wedi cytuno arnynt.
- **Rhannwch** y rhain gyda **gweddill y dosbarth** pan ofynnir.
- Gan ddefnyddio'r **cardiau Trymps Strydoedd a'ch menter eich hun**, cynigiwch **atebion** i'r problemau yr ydych wedi eu trafod yn gynharach, ac **ysgrifennwch nhw ar eich llyfryn**.



© Sustrans 2012 Registered Charity No. 326550 (England and Wales) SC039263 (Scotland) VAT Registration No. 416740656

sustrans JOIN THE MOVEMENT

## Gweithgaredd 8: **Ein Maniffesto**

### ATHRO

Ewch o gwmpas y dosbarth i gyd neu o gwmpas pob grŵp a gofyn iddynt gynnig un o'u camau gweithredu/atebion (un grŵp ar y tro). Gofynnwch iddynt gyfiawnhau eu dewis a gofynnwch i weddill y dosbarth a ydyn nhw'n cytuno â'r dewis. Os yw pawb yn gytûn, nodwch y dewis fel un o'r pwyntiau yn eich maniffesto.

- Ewch o gwmpas nes i chi gael **pob un o'r pump cam gweithredu**. Os oes gennych fwy na phump, **pleidleisiwch fel dosbarth**.
- Gofynnwch i'r disgyblion gofnodi Maniffesto'r Dosbarth yng nghefn eu llyfrynnau.

Archwiliwch y dewisiadau ar gyfer gwireddu'r maniffesto. Gall fod ar ffurf poster, collage, fideo, arddangosfa ar wal ac yn y blaen. Bydd yr elfennau gweledol hyn yn gymorth i lobïo pobl sy'n gwneud penderfyniadau. Gallwch gytuno ar hyn gyda'ch map i greu mwy o effaith gweledol.

### AMCANION A DEILLIANNAU DISGYBLION

Dylai disgyblion **rannu eu camau gweithredu** ar eu bwrdd er mwyn rhestru eu **pum cam gweithredu** gorau a rhaid iddynt allu **cyfiawnhau** eu dewisiadau.

Bydd angen iddynt **rannu un o gamau gweithredu gorau eu grŵp** pan ofynnir iddynt, ac egluro pam mae eu dewis yn bwysig. Bydd eu cam gweithredu yn **cyfrannu at y maniffesto**. Yna, gellir ei gyflwyno mewn **modd creadigol** i **lunwyr penderfyniadau**.

Gall **llunwyr penderfyniadau** gynnwys cynrychiolydd cenedlaethol etholedig, naill ai yn Sa Steffan neu mewn llywodraeth leol ddatganoledig neu gynrychiolydd lleol etholedig, er enghraifft, Cynghorydd tref neu sir. Gall hefyd fod yn swyddog o'r awdurdod lleol, fel Pennaeth Gwasanaethau Plant, Addysg neu Briffyrdd / Trafnidiaeth.

**Adnoddau**

Rhannau map maint A4 o Weithgaredd 3
Llyfrynnau disgyblion
Trymps strydoedd
Ffotograffau ar y dabled neu wedi'u hargraffu

**Amser gweithgaredd**

20 munud



sustrans JOIN THE MOVEMENT

© Sustrans 2012 Registered Charity No. 326550 (England and Wales) SC039263 (Scotland) VAT Registration No. 416740656